# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Enhanced Healthcare**

**Enhanced Healthcare**
**Glass House, Penrhos Manor**
**Oak Drive**
**Bae Colwyn**
**LL29 7YW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Enhanced Healthcare

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Enhanced Healthcare Solutions Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Gorffennaf 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae Enhanced Healthcare yn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, sy'n hybu annibyniaeth ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff pecynnau gofal eu darparu ar y cyd â'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr, sy'n cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar eu gofal a'u cymorth. Mae'r bobl yn dewis pwy sy'n eu cefnogi, pryd y maent am gael eu cefnogi a'r hyn y maent am ei wneud. Mae'r staff gofal yn ymrwymedig i rymuso unigolion i gyflawni eu potensial.

Caiff y staff gofal eu recriwtio mewn ffordd ddiogel, eu hyfforddi'n dda, a'u goruchwylio'n effeithiol. Mae'r darparwr yn ymrwymedig i gefnogi llesiant y staff y mae'n eu cyflogi.

Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, sy'n helpu'r darparwr i nodi meysydd i'w datblygu. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn cysylltu'n rheolaidd â'r bobl sy'n cael cymorth a'r staff gofal yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Caiff y bobl eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar eu gofal a'u cymorth gan gynnwys wrth recriwtio staff gofal a chreu cofnodion gofal. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol a'u bod yn treulio eu hamser yn gwneud y pethau sydd o bwys iddynt. Mae hyn yn cynnwys cymorth o ran byw o ddydd i ddydd, bywyd teuluol ac amser hamdden. Mae'r darparwr yn ystyried anghenion cyfathrebu ac anghenion diwylliannol y bobl. Gall y bobl ymgysylltu â staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r darparwr yn defnyddio menter siarad Cymraeg i gael cymorth cyfieithu ac i'w helpu i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Caiff y bobl eu cefnogi o ran eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y bobl yn cael cymorth i fynychu apwyntiadau iechyd. Caiff unrhyw gyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol ei gofnodi yn y cynlluniau personol a'r asesiadau risg. Mae'r adborth cadarnhaol gan weithwyr proffesiynol allanol yn adlewyrchu gwaith caled ac ymrwymiad y tîm i wella canlyniadau'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar gael iddynt sy'n cefnogi'r wybodaeth hon ac yn rhoi arweiniad ar bwy i siarad â nhw os bydd ganddynt bryder. Mae'r darparwr yn wybodus iawn am y broses ddiogelu ac mae'n hyderus wrth ymgysylltu â'r bwrdd diogelu lleol fel y bo angen. Mae systemau ar waith i gofnodi pryderon diogelu ac i ddiweddaru cofnodion er mwyn cynnwys unrhyw gamau gweithredu a chanlyniadau. Dywedodd y bobl sy'n cael cymorth wrthym y gallant siarad â'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol os bydd ganddynt unrhyw broblemau.

Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel. Mae gan y darparwr bolisi meddyginiaeth ar waith sy'n adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol cyfredol ac yn cefnogi'r hyfforddiant ar feddyginiaethau a gwblhawyd gan y staff gofal. Gwnaethom adolygu'r cofnodion meddyginiaeth a gwelsom eu bod yn cael eu cwblhau'n briodol. Mae prosesau ar waith i reoli gwallau meddyginiaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r darparwr yn cwblhau asesiad cychwynnol gyda'r bobl er mwyn casglu gwybodaeth bwysig am eu hanghenion gofal, yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r ffordd y maent am gael eu gofal a'u cymorth. Caiff y wybodaeth a gesglir yn ystod yr asesiad cychwynnol ac o ffynonellau eraill fel darparwyr blaenorol a'r awdurdod lleol, ei defnyddio i greu cynllun personol ac asesiad risg. Mae'r cynllun personol ac unrhyw asesiadau risg yn gofnodion manwl, sy'n rhoi arweiniad i'r staff gofal o ran sut i gefnogi'r unigolyn yn ddiogel, gan ar yr un pryd sicrhau y caiff hawliau'r bobl eu parchu a bod ganddynt ddewis a rheolaeth dros y ffordd y maent yn byw eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae gan y bobl lais yn y ffordd y caiff eu gofal ei ddarparu. Mae'r darparwr yn cwrdd â'r bobl yn rheolaidd i drafod eu safbwyntiau a phan fydd pobl yn codi materion, gwelsom ei fod yn gwrando arnynt ac yn gweithredu. Caiff gofal a chymorth y bobl eu hadolygu'n rheolaidd, a gwelsom fod y bobl, eu cynrychiolydd a gweithwyr proffesiynol eraill yn cymryd rhan yn y broses hon lle y bo'n briodol a lle bo'r bobl wedi rhoi caniatâd i hynny. Mae'r darparwr yn gwrando ar yr hyn y mae'r bobl am ei gael gan y staff gofal sy'n eu cefnogi, ac mae'n sicrhau yr ymgynghorir â'r bobl am newidiadau i'r tîm staff a'r broses recriwtio, gan drefnu sesiynau cwrdd a chyfarch â darpar aelodau o staff cyn iddynt ddechrau gweithio gyda'r unigolyn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael cymorth gan dîm o staff cyson a'u bod yn gwybod pwy fydd yn eu cefnogi.

Mae'r staff gofal yn ymrwymedig i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Gwelsom enghreifftiau lle roedd y staff gofal wedi helpu'r bobl i gyflawni pethau nad oeddent yn meddwl y gallent eu gwneud, fel teithio i leoliadau pellach i ffwrdd er mwyn ymweld â lleoedd o ddiddordeb. Mae'r darparwr wedi dechrau defnyddio dyddiaduron gweledol sy'n atgoffa'r bobl o'u cyflawniadau ac yn helpu i'w hannog i barhau i ddatblygu eu hyder a'u hannibyniaeth.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau ac mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant yn y maes hwn. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff gofal pan fo'i angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn derbyn gwasanaeth sy'n cael ei arwain yn dda gan reolwr ac unigolyn cyfrifol sy'n bresennol yn y gwasanaeth bob dydd. Mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, sy'n cynnwys archwiliadau, ymweliadau ansawdd a siarad â'r bobl sy'n cael cymorth. Caiff y cofnodion gofal eu gwirio yn rheolaidd i sicrhau ansawdd, ac mae'r rheolwr yn goruchwylio cofnodion apwyntiadau, digwyddiadau a damweiniau sy'n sicrhau y caiff camau priodol eu cymryd lle y bo angen. Gwelsom enghreifftiau da o sgyrsiau â'r bobl am eu safbwyntiau ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, a lle y caiff awgrymiadau eu gwneud, gwelsom fod camau yn cael eu cymryd.

Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael i'r bobl sy'n cael cymorth a'r staff gofal. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cynnwys gwybodaeth am sut i godi pryder a chysylltiadau allanol y gallant siarad â nhw er mwyn cael cymorth.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sy'n cael eu recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi'n briodol, a'u goruchwylio. Mae gan y darparwr broses recriwtio gadarn ar waith sy'n sicrhau bod y staff gofal y mae'n eu recriwtio yn meddu ar sgiliau a chymwysterau priodol i gefnogi oedolion sy'n cael gofal a chymorth. Gwelsom fod gan bob aelod o'r staff wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bod y gwasanaeth yn gofyn am eirdaon addas cyn iddynt gael eu cyflogi i weithio i'r sefydliad. Mae rhestr helaeth o hyfforddiant ar gael i'r staff gofal, a chaiff hyfforddiant ei gwblhau yn seiliedig ar anghenion gofal a chymorth y bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Caiff perfformiad y staff gofal ei fonitro a'i gefnogi drwy sesiynau goruchwylio rheolaidd, arfarniadau blynyddol, a hapwiriadau. Mae'r darparwr yn gofyn i'r bobl sy'n cael cymorth am adborth am y staff gofal sy'n gweithio gyda nhw. Mae'r darparwr wedi cael ei enwebu am wobr i gydnabod y lefel uchel o gymorth a roddir i'r staff y mae'n eu cyflogi.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn cyflawni ei rôl yn unol â gofynion y Rheoliadau, gan gynnal ymweliadau rheolaidd i adolygu meysydd o'r gwasanaeth a ddarperir, ac i ofyn am adborth gan y bobl sy'n cael cymorth a'r staff sy'n gweithio i'r sefydliad. Caiff ansawdd y gofal ei adolygu bob chwe mis gan ystyried yr hyn sydd wedi mynd yn dda, pa welliannau a wnaed a sut mae'r darparwr yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/08/2024